# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2015/16

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Ieuan Williams**
**Grwp: Annibynnol** **Ward: Lligwy**

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Rwyf yn Arweinydd y Cyngor ac yn ddeilydd portffolio Datblygu Economaidd, Hamdden a Thwristiaeth.

| **Rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2016, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **[1]Ffigyrau Presenoldeb** |
|---|---|
| Cyngor | 8 (100%) |
| Pwyllgor Gwaith (Cadeirydd) | 14 (100%) |
| Pwyllgor Penodiadau | 6 (67%) |
| Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig | 2 (67%) |
| Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. Mae rhain wedi eu rhestri isod.<br><br>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel ddeilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu 5 cyfarfod (83%). Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Adfywio'r Ymddiriedolaeth.

Rwyf hefyd yn aelod o'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol ar y Cyd (Môn a Gwynedd) a Phwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol.

'Rwyf wedi bod yn aelod o'r panel maethu am y deuddeg mis diwethaf. Mae'r panel wedi ei gyfansoddi o leygwyr, gweithwyr cymdeithasol a chynrychiolydd o'r Ymddiriedolaeth Iechyd efo arbenigedd mewn iechyd plant.

Mae gan y Cyngor nifer o fyrddau sy'n goruchwylio prosiectau mae'r Cyngor yn gweithio arnynt. 'Rwyf yn aelod ar nifer o rhain. Maent wedi eu rhestru isod –

Dau fwrdd trawsnewid sy'n goruchwylio'r holl brif brosiectau datblygol.
Y Bwrdd Trawsnewid Addysg.
Y Bwrdd Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

[1] Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

Y Bwrdd Datblygu Tai.
Y Bwrdd Trawsnewid Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid.
Fforwm Strategol Ynys Ynni.
Bwrdd Trefniadau Diogelu Corfforaethol.

‘Rwyf yn cadeirio Grŵp Tasg yr Iaith Gymraeg.

| **Rwy’n cynrychiol’r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:** | **Nifer cyfarfodydd a drefnwyd** | **Nifer a fynychwyd** |
|---|---|---|
| Cymdeithas Llywodraeth Lleol Cymru | 7 | 6 |
| Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 4 | 4 |
| Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru | 0 | 0 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 0 | 0 |
| Llys Llywodraethwyr Prifysgol Cymru, Bangor | 1 | 0 |
| Medrwn Môn | 4 | 3 |
| Menter Môn | 4 | 3 |

Byddaf yn cwrdd â’r AS a’r AC lleol yn rheolaidd.

**2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Dros y deuddeg mis diwethaf ‘rwyf wedi cael ceisiadau i helpu efo materion tai (gwneud yn sicr bod ymgeiswyr efo’r nifer cywir o bwyntiau ac yn hwyrach i esbonio’r system fandio newydd), priffyrdd, llwybrau cyhoeddus, goleuadau stryd, biniau halen, gwastraff a materion cynllunio.

Byddaf yn mynychu Cyngor Cymuned Llanfairmathafarneithaf fel aelod a Chyngor Cymuned Pentraeth fel Cynghorydd Sir.

Rwyf yn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Goronwy Owen ac rwyf hefyd yn aelod o gorff Llywodraethwyr Ysgol Syr Thomas Jones.

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Mae’r Eisteddfod Genedlaethol yn dod i’r ynys yn 2017. ‘Rwyf yn aelod o’r pwyllgor Apêl yn LlanfairME. Mae gennym darged i hel £22,000. Hyd yn hyn rydym wedi codi dros hanner hyn.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi mynychu’r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi’i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

| | |
|---|---|
| Rhiantu Corfforaethol | 6 Gorffennaf 2015 |
| Sipsiwn a Theithwyr – Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol | 7 Rhagfyr 2015 |
| Sesiynau Briffio Aelodau (8 allan o 11 = 73%) | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 |

**5 – Gweithgareddau a Materion Eraill**

Mae ymgyhgori cyhoeddus ynglyn â gwaith y Cyngor yn holl bwysig. Oherwydd deddfau newydd, ymgyrchoedd gan San Steffan a Llywodraeth Cymru ac hefyd torriadau cyson i'n cyllideb mae raid i ni dorri'n brethyn yn unol a be sy'n dod i mewn. Mae hyn yn golygu ail-drefnu ein gwasanaethau i gydbwyso'r gyllideb ac hefyd, weithiau mae rhaid gwneud penderfyniadau nad ydynt yn boblogaidd efo'r cyhoedd.

Dros y deuddeg mis diwethaf bu'm unwaith eto yn ymgynghori ar gyllideb y Cyngor a newidiadau a fyddai yn deillio ohono. Y flwyddyn yma dechreuom drwy gwrdd efo'r prif sefydliadau rydym yn gweithio a hwy. Mi fues allan yn trafod efo Cynghorau a Chweched Dosbaerth ein Ysgolion Uwchradd. Roedd adborth yn ein bobl ifanc yn fywiog a gwreiddiol. Mi gwrddais a'r Cynghorau Tref a Chymuned a fe drenwyd nifer o sesiynau galw i mewn mewn llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden.

'Rwyf yn cadeirio Fforwm Cyswllt y Cynghorau Tref a Chymuned. Gyda'r sefyllfa ariannol yn gwaethygu flwyddyn ar flwyddyn mae hi'n dod yn llawer anoddach i ddarparu gwasanaethau heb wneud toriadau neu ddarparu mewn dulliau gwahanol. Mae Llywodraeth Cymru yn ein hannog i ddarparu gwasanaethau drwy ddulliau amgen. 'Rydym yn ymchwilio i wneud hyn mewn partneriaeth efo'r Cynghorau Tref a Chymuned.

Gyda datblygiad Wylfa Newydd yn dod yn agosach 'rwyf yn cwrdd yn rheolaidd a Horizon i drafod sut y byddent yn lliniaru sgil effeithiau'r prosiect ar yr ynys.

Mae rhaid i'r Arweinydd baratoi adroddiad blynyddol i'w gyflwyno yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor Sir ym mis Mai er mwyn tystiolaethu os yw yn arwain yn effeithiol, mae'r adroddiad i'w weld yma –

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s500001502/Adroddiad%20Blynyddol%20Arweinydd.pdf?LLL=1

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:
http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=7&LLL=1

| **Cynghorydd Ieuan Williams** | **Ebrill 2016** |
|---|---|